TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET

CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE

PWNC/SUBJECT:

YMATEB CYNGOR GWYNEDD I YMGYNGHORIAD PŴER NIWCLEAR HORIZON AR WYLFA NEWYDD (YMGYNGHORIAD CYN CYFLWYNO CAIS GYNTAF).

GWYNEDD COUNCIL RESPONSE TO HORIZON NUCLEAR POWER CONSULTATION ON WYLFA NEWYDD (FIRST PRE APPLICATION CONSULTATION)

AELOD CABINET/CABINET MEMBER

Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet - Economi
Cynghorydd John Wyn Williams, Aelod Cabinet - Cynllunio

Councillor John Wynn Jones, Cabinet Member - Economy
Councillor John Wyn Williams, Cabinet Member - Planning

PENDERFYNIAD/DECISION

Cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad uchod ar ran Cyngor Gwynedd (atodiad 1).

Present a response to the above consultation on behalf of Gwynedd Council (annex 1).

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/REASONS FOR THE DECISION

Mae cwmni Pŵer Niwclear Horizon yn cynnal eu hymgynghoriad cyn cyflwyno cais gyntaf ynglŷn â datblygiad atomfa Wylfa Newydd. Mae'r ymgynghoriad (bydd ymgynghoriad pellach diwedd 2015) yn paratoi'r ffordd i gais gan y cwmni yn 2017 i Lywodraeth y DU ar gyfer Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.

Ceir manylion yr ymgynghoriad yn:
http://consultation.horizonnuclearpower.com/hafan.

Maent yn ymgynghori ynghylch eu cynigion penodol ar gyfer y prosiect; nid ydynt yn ymgynghori ynghylch egwyddor pŵer niwclear na pha mor addas yw'r safle ar gyfer ar gyfer gorsaf bŵer niwclear. Mae'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 08 Rhagfyr 2014.

Horizon Nuclear Power are undertaking their first pre application consultation on the development of Wylfa Newydd. The consultation (there will be a further consultation at the end of 2015) will prepare the way for the company's application to the UK Government in 2017 for a Development Consent Order.

Details of the consultation can be found at:
http://consultation.horizonnuclearpower.com/

They are consulting on their specific proposals for the project; they are not consulting on the principal of nuclear power or on how suitable the site is for a

nuclear power plant. The consultation period ends on 08 December 2014.

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ RELEVANT CONSIDERATIONS

Er nad yw Wylfa Newydd wedi ei leoli yng Ngwynedd, bydd y datblygiad yn gyfle i'r economi yng Ngwynedd. Bydd hefyd yn cyflwyno heriau i'r sir o ran isadeiledd, gwasanaethau cyhoeddus, cyflenwad tai a'r iaith Gymraeg.

Yng ngoleuni'r uchod, credir fod yn allweddol fod Cyngor Gwynedd yn ymateb i ymgynghoriad Pŵer Niwclear Horizon.

Although Wylfa Newydd is not located in Gwynedd, the development will be an opportunity for the Gwynedd economy. It will also present challenges to the county in terms of infrastructure, public services, housing supply and the Welsh language.

In light of the above, it is considered essential that Gwynedd Council respond to Horizon Nuclear Power's consultation.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/VIEWS OF STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr/Chief Executive:-

"*Fel y noda'r daflen, mae hwn yn ymgynghoriad ynglyn a'r cynigion penodol ar gyfer y prosiect; nid am egwyddor pŵer niwclear nag addasrwydd y safle. Mae'n gwbl briodol ystyried amryw o agweddau gwahanol wrth ymateb i brosiect mor fawr ac mae'r ystyriaethau o bwys oll wedi eu nodi yn y Daflen. Rwy'n cymeradwyo'r argymhelliad".*
"As mentioned in the document, this is a consultation about the specific proposals for the project, not on the principle of nuclear power nor on the suitability of the site. It is entirely appropriate to consider a range of different aspects in response to such a large project and all the major issues have been identified in this document. I approve the recommendation".

2. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:-

"*Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb".*
"No observations regarding propriety"

3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-

"Mae'r prif ystyriaethau, sef cyfle i'r economi a'r heriau ddaw gyda hynny, wedi'u nodi ar y daflen benderfyniad ac yn yr ymateb atodol i'r ymgynghoriad. Gallasai fod ardrawiad ariannol sylweddol i Wynedd o'r datblygiad ei hun, yn ogystal a chost yr isadeiledd a'r gwasanaethau cyhoeddus fydd angen i'w gynnal."

"The primary considerations, an opportunity for the economy and the accompanying

challenges, are noted on the decision notice and in the attached response to the consultation. There could be a substantial financial impact for Gwynedd from the development itself, as well as the cost of the infrastructure and public services required to support it."

BARN YR AELOD LLEOL/VIEW OF LOCAL MEMBER

Dim yn fater lleol

Not a local matter

LLOFNOD /SIGNED

Cyng. John Wyn Williams

DYDDIAD/DATE

9.1.15

Cyng. John Wynn Jones

9.1.15

Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Wylfa Newydd - Cam Un,
Pŵer Niwclear Horizon 08 Rhagfyr 2014

Drwy law e-bost: ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com

Annwyl gyfaill

Ymateb Cyngor Gwynedd i Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Wylfa Newydd - Cam Un

Diolch am y cyfle i ymateb Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio - Cam 1 cwmni Pŵer Niwclear Horizon ar gyfer cynllun atomfa Wylfa Newydd. Croesewir ymrwymiad cwmni Pŵer Niwclear Horizon i ymgynghori'n barhaus gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid megis Cyngor Gwynedd, credwn fod hyn yn allweddol bwysig i sicrhau cydsyniad eang i ddatblygiad Wylfa Newydd.

Cyflwynir yr ymateb hwn ar ran Cyngor Gwynedd. Lluniwyd yr ymateb yn dilyn mewnbwn gan Adrannau'r Cyngor ynghyd ag Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd.

Amgeir atodiad sydd yn amlinellu ein hymateb bras i'r cwestiynau penodol sydd wedi eu gofyn yng nghyswllt yr ymgynghoriad; fodd bynnag hoffwn grynhoi'r prif negeseuon dymunwn eu cyfleu isod:

---

1. Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod arwyddocâd anferthol buddsoddiad Pŵer Niwclear Horizon yn natblygiad Wylfa Newydd i Ogledd Cymru gyfan a'r Gogledd Orllewin yn arbennig.
2. Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i gydweithio gyda phartneriaid i ddeall effaith y datblygiad yn ystod y cyfnod adeiladu ar:
   - dinas Bangor, fel canolbwynt cymdeithasol Gogledd Orllewin Cymru;
   - isadeiledd yr ardal, yn arbennig y pontydd dros Y Fenai a'r A487 o'r De i'r Gogledd;
   - gwasanaethau cyhoeddus megis iechyd, diogelwch cymunedol, cyfleusterau hamdden a.y.b.;
   - yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig y rhanbarth;
   - y farchnad lafur;
   - marchnad a chyflenwad tai;

gyda ffocws ar gamu at weithredu mesurau i leddfu unrhyw sgil effeithiau negyddol cyn gynted ag y bo modd.

3. Mae Cyngor Gwynedd yn dymuno gweld cwmni Pŵer Niwclear Horizon yn rhoi sylw pellach i wahaniaethu rhwng effaith datblygiad Wylfa Newydd yn ystod y cyfnod adeiladu a'i effaith wedyn pan fydd yr atomfa yn weithredol. Croesewir y sylw sydd yn cael ei roi i ardrawiad y cyfnod adeiladu a'r cyfleoedd a heriau fydd yn deillio, ond credwn fod angen rhoi'r un sylw i effaith hir dymor y datblygiad.
4. Mae Cyngor Gwynedd o'r farn fod datblygiad Wylfa Newydd o arwyddocâd i ardal eang a bydd cyfleoedd a heriau yn deillio o adeiladu a gweithredu atomfa Wylfa Newydd y tu hwnt i Ogledd Ynys Môn. Credwn fod yr ardal ddaearyddol sydd yn cael sylw yn yr ymgynghoriad presennol yn rhy gyfyng a bod yn allweddol bwysig fod cwmni Pŵer Niwclear Horizon yn ystyried yr ardal yn ehangach ymhob agwedd o'i waith i ddatblygu a chynllunio ei gynigion.
5. Yng nghyswllt yr uchod, dymunwn weld cynnydd sylweddol ac ar fyrder mewn ymateb gan gychwyn gweithredu cyn gynted â phosib. Eto, mae'r Cyngor yn barod ac yn awyddus i chware rôl lawn mewn partneriaeth â eraill.

Gan obeithio y bydd y sylwadau uchod ac amgaeedig yn ddefnyddiol i chi ac y byddwch yn rhoi sylw i'r materion rydym wedi eu hamlygu.

Mae Cyngor Gwynedd yn llwyr ymroddedig i sicrhau fod yr heriau fydd yn deilio o adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd yn cael eu cyfarch ac ein bod yn manteisio i'r eithaf o bob cyfle. Edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio â chwi a phartneriaid eraill i'r perwyl.

Yn gywir iawn

Cyng. / Cllr. John Wynn Jones
Aelod Cabinet – Economi

Cyng. / Cllr. John Wyn Williams
Aelod Cabinet - Cynllunio

Amg.

Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Wylfa Newydd - Cam Un,
Pŵer Niwclear Horizon

Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwestiynau ymgynghori

1. Oes gennych chi unrhyw sylwadau cyffredinol ar y Prosiect?

   - Mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi'r cyfleoedd economaidd fydd yn dod i'r isranbarth o ganlyniad i Wylfa Newydd a chydnabyddwn arwyddocâd y datblygiad hwn i Ogledd Cymru gyfan a'r Gogledd Orllewin yn arbennig.
   - Credwn fod angen sylw pellach a ffocws ar yr heriau a'r cyfleoedd i'r rhanbarth cyfan (Gogledd Cymru gyfan a'r Gogledd Orllewin yn arbennig) drwy gydol y cynlluniau a'r dogfennau ymgynghorol. Credwn fod ffocws rhy gyfyng ar ardal ddaearyddol o fewn Ynys Môn yn bresennol, heb fod esboniad clir o'r rhesymeg.
   - Credwn y bydd angen cynllunio gofalus i leddfu effeithiau negyddol ac uchafu'r cyfleoedd fydd yn deillio o ddatblygu a gweithredu atomfa Wylfa Newydd, yn arbennig o ran:
     - dinas Bangor, fel canolbwynt cymdeithasol ac economaidd yr ardal;
     - trafnidiaeth – yn arbennig yng nghyswllt y pontydd dros Y Fenai a'r A487 i'r De;
     - gwasanaethau cyhoeddus amrywiol megis iechyd, diogelwch cymunedol, hamdden a.y.b.;
     - yr iaith Gymraeg; ac ar,
     - y farchnad a'r cyflenwad tai;
   - Dymunir cydweithio i ddeall gofynion technegol y Prosiect, goblygiadau hynny a chapasiti'r rhanbarth ym mhob ystyr i ymdopi gyda'r gofynion er mwyn cael y cydbwysedd gorau yn gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
   - Mae Cyngor Gwynedd yn dymuno gweld cwmni Pŵer Niwclear Horizon yn rhoi sylw pellach i effaith datblygiad Wylfa Newydd wedi cwblhau'r cyfnod adeiladu pan fydd yr atomfa yn weithredol. Croesewir y sylw sydd yn cael ei roi i ardrawiad y cyfnod adeiladu a'r cyfleoedd a heriau fydd yn deillio, ond credwn fod angen rhoi'r un sylw i effaith parhaus y datblygiad.
   - Dymunai'r Cyngor weld cydlynu agos rhwng amserlen Wylfa Newydd a datblygiadau eraill yn y diwydiant niwclear gan gynnwys dadgomisiynnu Atomfeydd Wylfa a Thrawsfynydd i uchafu'r cyfle i sicrhau'r budd mwyaf i'r economi a'r gweithlu lleol.
   - Credwn fod yn allweddol fod trafodaeth gyda'r Awdurdod Dadgomisiynnu Niwclear (NDA) i sicrhau fod gweithlu presennol Safle Dadgomisiynnu Trawsfynydd yn cael ei gynnal hyd fod dadgomisiynnu Wylfa ac adeiladu Wylfa Newydd yn cychwyn.
   - Yng nghyswllt yr uchod, dymunwn weld cynnydd sylweddol ac ar fyrder mewn ymateb gan gychwyn *gweithredu* cyn gynted â phosib. Eto, mae'r Cyngor yn barod ac yn awyddus i chware rôl lawn mewn partneriaeth â eraill

2. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y ffordd mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal?

   - Croesawn ymrwymiad cwmni Pŵer Niwclear Horizon i ymgynghori'n barhaus gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid megis y Cyngor Gwynedd, er bod y fframwaith cyfreithiol yn un ar lefel y DU.

   - Mae'r Cyngor yn hapus o weld cwmni Pŵer Niwclear Horizon yn ymgynghori gyda'r cyhoedd ar draws ardal eang ym Môn, Gwynedd a Chonwy. Yn allweddol magu ymdeimlad o berchnogaeth ac i sicrhau cydsyniad y cyhoedd i'r datblygiad.
   - Rydym yn derbyn y fframwaith a gynigir o ran y sgôp i ddylanwadu ar y prosiect ac yn gweld budd mawr yn y dull gweithredu a gynigir, yn arbennig y dull rhonciog o gyflwyno gwybodaeth gynyddol dechnegol a fabwysiadwyd.
   - Croesewir hefyd ymrwymiad cwmni Pŵer Niwclear Horizon i ddarparu adborth o'r ymarferiad ac i ymgynghori ymhellach at ddiwedd 2015.

3. Oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol a gyflwynwyd gan Horizon?

   - Mae ardrawiad amgylcheddol uniongyrchol datblygiad y safle wedi ei gyfyngu i'w gyffiniau ac felly y tu hwnt i sgôp sylwadau'r Cyngor.
   - Gan fod y ffocws daearyddol yn rhy gyfyng ar hyn o bryd, nodir mai gwybodaeth am yr Ynys sy'n cael ei nodi a'i ddadansoddi'n bennaf fesul thema.
   - Anogir Pŵer Niwclear Horizon i sicrhau ei fod yn adnabod a rhoi sylw i ystod lawnach o bolisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol a lleol. Mae cysylltiad rhwng y sylw yma a sylw'r Cyngor am yr ardal chwilio gyfyng edrychir arno ar hyn o bryd.
   - Anogir Pŵer Niwclear Horizon i drafod gofynion am agregau a gwaredu gwastraff, e.e. i adeiladu'r datblygiadau cysylltiol, gydag Uned Mwynau a Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru.
   - Anogir Pŵer Niwclear Horizon i ystyried effaith cronnol datblygiadau, gan gynnwys effeithiau'r rhwydwaith trawsgludo trydan ar draws y Fenai i orsaf drydan Pentir.

4. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynigion datblygu arfordirol Horizon ym Mhorth-pistyll a Thrwyn Wylfa, sy'n ymwneud â'r system dŵr oeri (gan gynnwys y morgloddiau) a'r cyfleuster dadlwytho morol?

   Dim sylw

5. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnig tirweddu dangosol Horizon?

   Dim sylw

6. A ydych chi'n meddwl y dylid dylunio adeiladau'r Orsaf Bŵer i weddu i'r dirwedd neu a ddylen nhw fod yn nodwedd bensaernïol amlwg yn y dirwedd, neu a oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch hyn?

   Dim sylw

7. Oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â sgiliau a hyfforddiant a hybu cyflogaeth leol a rhanbarthol?

   - Croesewir y cyfleoedd gwaith fydd yn cael eu creu yn ystod cyfnod adeiladu ac yna gweithredu Wylfa Newydd yn ddirfawr. Cynigiant gyfle euraidd i greu swyddi o ansawdd yng nghyd-destun economi rhanbarthol sydd yn gorddibynnol ar gyflogaeth gyflog isel.
   - I sicrhau fod Gogledd Cymru yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd mae'n allweddol fod Pŵer Niwclear Horizon yn parhau i gydweithio yn agos gyda darparwyr addysg statudol, Uwch a Pellach ledled y Gogledd ynghyd â phartneriaid allweddol eraill megis y Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru.
   - I gefnogi trigolion Gogledd Cymru i sicrhau cynifer a phosib o'r cyfleoedd gwaith; anogwn Bŵer Niwclear Horizon i leihau cyd-belled ac y bo modd yr amrywiad yn nifer a gyflogir yn ystod y cyfnod adeiladu. Bydd amrywiaethau mawr a dros gyfnodau byr yn lleihau gallu'r farchnad lafur yng Ngogledd Cymru i gwrdd â'r angen.
   - Croesewir ymrwymiad Pŵer Niwclear Horizon i ddatblygu a gweithredu Strategaeth Swyddi a Sgiliau. Anogir Pŵer Niwclear Horizon i gwblhau'r Strategaeth ar fyrder.
   - Mae'r Cyngor yn annog Pŵer Niwclear Horizon i sicrhau fod eu darpariaeth hyfforddiant a datblygu yn ymglymu sgiliau eu gweithlu gyda gofynion y farchnad lafur yn ehangach yng Ngogledd Cymru i leihau'r risg o greu gweithlu galluog fydd yn gadael y rhanbarth wedi i Wylfa Newydd gael ei hadeiladu.

8. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch ymgysylltiad Horizon â'r gadwyn gyflenwi a chynigion ar gyfer prynu gan fusnesau a chyflenwyr lleol a rhanbarthol?

   - Croesewir ymrwymiad Pŵer Niwclear Horizon i ddatblygu'r gadwyn cyflenwir lleol ac i sefydlu Siarter Cadwyn Cyflenwi. Anogir y cwmni i ddatblygu ei raglen cyflenwi cyn gynted ag y bo modd i sicrhau cyfle i fusnesau yng Ngogledd Cymru ddatblygu eu gallu i gyfarch yr anghenion.
   - Mae'r Cyngor yn annog Pŵer Niwclear Horizon i lynu at eu hymrwymiad i sicrhau fod eu cytundebwyr hwythau yn efelychu eu hymrwymiad i'r gadwyn cyflenwi leol.
   - Awgrymir y bydd hefyd yn allweddol bwysig fod Pŵer Niwclear Horizon, ynghyd a'i bartneriaid yn y sector gyhoeddus, yn wyliadwrus o unrhyw oblygiadau annisgwyl o'i bresenoldeb yn y farchnad leol. Er enghraifft, mae risg gallai'r galw sylweddol yn deillio o Wylfa newydd aflunio'r farchnad

adeiladu yn lleol gan arwain at gynnydd yng nghost a lleihad argaeledd adeiladwyr ar gyfer cynlluniau eraill.

- Dylid sicrhau fod grym galw Pŵer Niwclear Horizon am ddeunyddiau a gwasanaethau yn elwa'r rhanbarth yn ehangach drwy sicrhau fod datblygiadau cysylltiedig yn cael eu gwireddu ar yr un pryd; er enghraifft uwchraddio'r isadeiledd rhwydwaith trydan neu welliannau i'r isadeiledd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

9. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch egwyddorion Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig ddrafft Horizon?

    - Croesewir ymrwymiad Pŵer Niwclear Horizon i lunio Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig a chefnogir yn fras yr egwyddorion a amlinellir.
    - Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn credu fod y Strategaeth fel a'i hamlinellir llawer iawn yn rhy gul ei ffocws daearyddol gan ganolbwyntio ar yr A5025 a darparu budd i'r dyfodol i Ynys Môn. Credwn fod yn allweddol bwysig fod cynigion Pŵer Niwclear Horizon yn ystyried oblygiadau Wylfa Newydd i'r ardal gyfan ac yn cynnig ymatebion i'r perwyl. Dylai'r ystyriaethau yma gynnwys y defnydd posib o lonydd gwledig, a fydd yn llwybrau poblogaidd gan weithlu sy'n dewis peidio byw mewn llety pwrpasol, i gysylltu gyda'r priffyrdd er mwyn gallu mynd i'r safleoedd cofrestru ac i'r busnesau yn y gadwyn gyflenwi.

10. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynigion trafnidiaeth môr Horizon?

    - Cytunwn gyda bwriad Pŵer Niwclear Horizon i wneud defnydd o drafnidiaeth forol ar gyfer cludo 'Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin' ac, tybiwn, nwyddau swmpus megis agregau. Fodd bynnag mae'r cynigion presennol yn canolbwyntio'n llwyr ar sut derbynnir y nwyddau ar safle Wylfa Newydd; ni amlinellir sut tybir llwytho'r deunydd ar longau i'w gludo i'r safle. Mae'n debygol y bydd rhai deunyddiau yn cael eu llwytho ar longau yn gyfagos i'w tarddiad, ond tybiwn y bydd rhai deunyddiau yn cael eu cludo i Ogledd Cymru ar y ffyrdd neu reilffyrdd cyn eu trosglwyddo i'r môr Os felly, mae angen gwybodaeth bellach ynglŷn â'r oblygiadau i ffyrdd y rhanbarth megis y A55 a'r A487 a Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru ynghyd a gwybodaeth ynglŷn â sut bwriedir derbyn a throsglwyddo'r deunyddiau ar gyfer eu taith ymlaen i'r safle.

11. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynigion trafnidiaeth ffyrdd Horizon?

    - Croesewir y sylw mae Pŵer Niwclear Horizon yn ei roi i anghenion trafnidiaeth a'r gweithlu adeiladu.
    - Fodd bynnag, credwn unwaith eto fod y cynigion yn canolbwyntio ar ardal ddaearyddol rhy gyfyng, gan nad oes unrhyw sylw i'r ardal y tu hwnt i Ynys Môn. Nid oes unrhyw sylw yn y cynigion a amlinellir i'r oblygiadau i ffyrdd tu hwnt i'r Fenai, megis yr A55 a'r A487 o ganlyniad i'r cynnydd yng nghymudo a chludo nwyddau. Mae'n ymddangos hefyd fod y cynigion yn rhagdybio y bydd y mwyafrif llethol o weithlu'r safle wedi eu llety ar Ynys Môn sy'n groes

i'r dyhead fod rhan sylweddol o'r gweithlu yn deillio o ymysg trigolion cynhenid Gogledd Cymru.

- Credwn fod yn allweddol bwysig fod Pŵer Niwclear Horizon yn rhoi sylw buan i oblygiadau datblygiad Wylfa Newydd i'r Gogledd Orllewin yn ehangach gan roi sylw arbennig i allu Pont Britannia i ymdopi â chynnydd yn y nifer o deithwyr, yr oblygiadau i'r A55 ar hyd arfordir y Gogledd a gallu'r A487 i gludo nifer cynyddol o deithwyr o Dde Gwynedd.

12. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr ardal chwilio fawr neu awgrymiadau ar gyfer safleoedd gallai Horizon eu datblygu ar gyfer cyfleusterau parcio a theithio, canolfannau logisteg neu lety gweithwyr dros dro?

- Credwn fod yr ardal chwilio fawr a nodir yn nogfennau ymgynghori llawer iawn yn rhy gyfyng yn ei sgôp daearyddol.
- Tybir bod pwyslais yn cael ei roi ar amser teithio gweithwyr adeiladu i'r prif safle er mwyn osgoi cyfnodau teithio gormodol a/neu weithwyr yn cael eu dal mewn tagfeydd, e.e. ar y pontydd. Er yn cydnabod y gallai hynny effeithio ar amserlen adeiladu'r atomfa, credir bod angen rhoi ystyriaeth i'r darlun cyflawn er mwyn cael y cydbwysedd orau i gymunedau'r Ynys, Gwynedd a Gogledd Orllewin Cymru.
- Mae Cyngor Gwynedd o'r farn fod yn allweddol bwysig fod Pŵer Niwclear Horizon yn ystyried ardal ddaearyddol Gogledd Cymru yn ei gyfanrwydd gan roi sylw arbennig i'r Gogledd Orllewin gan gynnwys Ynys Môn, Glannau'r Fenai (gan gynnwys Caernarfon a Bangor) a corridor yr A55.
- Yn benodol, credwn dylid ystyried lleoli prif gyfleusterau parcio a theithio a chanolfan logisteg Wylfa Newydd yng nghyffiniau Bangor yng ngoleuni'r cyfyngiadau yng ngallu Pont Britannia i ymdopi gydag unrhyw gynnydd yn ei ddefnydd. O ran canolfan logisteg mae nifer o leoliadau addas ellid eu hystyried yn yr ardal gan gynnwys Parc Bryn Cegin, Llandegai a Pharc Menai a byddai'r Cyngor yn hapus i gydweithio gyda Phŵer Niwclear Horizon i adnabod lleoliad addas ar gyfer safle parcio a theithio.
- Yng nghyswllt llety gweithwyr, credwn fod y cynigion yn awgrymu gorddibyniaeth ar weithwyr mudol yn adleoli dros dro i'r ardal a bod y gweithwyr hynny am fod wedi eu lleoli mewn llety pwrpasol dros dro fydd Horizon yn ei ddarparu, gyda'r gweddill mewn unedau tai sector breifat neu mewn llety gwyliau ar gyfer y cyfnod adeiladu.
- Ni chredwn fod ystyriaeth ddigonol wedi cael ei roi i effaith yr agwedd yma ar argaeledd unedau tai sector breifat i drigolion lleol na'r sector dwristiaeth yn ystod y cyfnod adeiladu. Credwn fod cydweithio gyda'r Partneriaethau Tai a'r Cynghorau yng Ngogledd Orllewin Cymru yn allweddol er mwyn datblygu dealltwriaeth lawn o argaeledd llety yn yr ardal er mwyn adnabod yr opsiwn orau i gymunedau'r ardal.
- Credwn fod dealltwriaeth buan o'r math o weithwyr (e.e. sengl, neu'n mudo efo teulu) sy'n debygol o adleoli i'r ardal yn hanfodol a chyfnodau'r contractau gwaith er mwyn adnabod yr opsiynau gorau i ddarparu llety.

- Ni chredwn fod ystyriaeth ddigonol i'r tebygolrwydd y bydd cyfran o'r gweithwyr mudol yn dewis lleoli yn gyfagos i brif ganolfannau trefol Gogledd Orllewin Cymru megis Llangefni, Caernarfon, Bangor a'r cyffiniau a'r ardrawiad tebygol eu presenoldeb ar y cymunedau hyn.
- Ni chredwn fod ystyriaeth ddigonol i senario lle gwelir gweithlu'n mudo o rannau mwy gwledig i ardaloedd mwy trefol sy'n debygol o waethygu sefyllfa sydd eisoes yn fregus o ran oedran poblogaeth y cymunedau, gallu ieithyddol.
- Credwn fod angen ystyriaeth fanwl yn fuan iawn o ardrawiad datblygiad Wylfa Newydd a'r gweithlu fydd yn gysylltiedig â'r adeiladu, ar gymunedau'r rhanbarth a'r oblygiadau o ran y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus megis iechyd, diogelwch cymunedol, addysg, hamdden, ayyb cyn gynted ag y bo modd.

13. Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer manteision tymor hir i'r dyfodol neu gyfleusterau cymunedol?
    - Mae'r Cyngor yn credu'n gryf fod angen deall yn well arwyddocâd ac effaith datblygiad Wylfa Newydd yn ystod y cyfnod adeiladu ac wedi cwblhau'r cyfnod adeiladu pan fydd yr atomfa yn weithredol
    - Credwn fod yn bwysig bod lleoliad datblygiadau all ddod a manteision tymor hir o'r cychwyn yn gyson â pholisïau cynllunio defnydd tir

14. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol ar gynigion Prosiect Horizon?
    - Hoffwn erfyn ar Bŵer Niwclear Horizon parhau i ymchwilio i oblygiadau cymdeithasol ac ieithyddol datblygiad Wylfa Newydd. Credwn fod yn allweddol bwysig fod camau cadarn yn cael eu mabwysiadu i lesteirio unrhyw risgiau gan sicrhau fod y datblygiad yn cyfrannu i'r eithaf at gynaliadwyedd economaidd a chymdeithasol cymunedau cynhenid Ynys Môn, Gwynedd a Gogledd Orllewin Cymru.

Wylfa Newydd Pre-application Consultation – Stage One,
Horizon Nuclear Power 08 December 2014

Via e-mail: ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com

Dear sirs

Gwynedd Council's Response to the Wylfa Newydd Pre-application Consultation – Stage One

Thank you for the opportunity to respond to Horizon Nuclear Power's Pre-application Consultation – Stage 1 for the Wylfa Newydd nuclear power station scheme. Horizon Nuclear Power's commitment to ongoing consultation with the public and stakeholders, such as Gwynedd Council, is welcomed. We believe that this is crucially important to ensure widespread consent for the development of Wylfa Newydd.

This response is submitted on behalf of Gwynedd Council. The response was drawn up following input from Council Departments along with Gwynedd Council's Cabinet Members.

An appendix is attached outlining our general response to the specific questions raised in the consultation; however, we wish to summarise the main messages that are to be conveyed below:

---

1. Gwynedd Council acknowledges the huge significance of Horizon Nuclear Power's investment in the development of Wylfa Newydd for North Wales as a whole and the North-West in particular.
2. Gwynedd Council is eager to collaborate with partners to understand the effect of the development during the construction phase on:
    - The city of Bangor as the social centre of north-west Wales;
    - The area's infrastructure, especially the bridges over the Menai Straits and the A487 from the south to the north;
    - Public services such as health, community safety, leisure facilities etc;
    - The Welsh language and the region's Welsh culture;

- The labour market:
- The housing market and housing supply;

With the focus on working quickly towards implementing mitigation measures for any negative impacts as soon as possible.

3. Gwynedd Council wishes to see Horizon Nuclear Power further addressing the differentiation between the effect of the Wylfa Newydd development during the construction phase and its effect afterwards when the power station is operational. The attention given to the impact of the construction phase and the resulting opportunities and challenges is to be welcomed but we believe that the same attention must be given to the long-term impact of the development.
4. Gwynedd Council is of the opinion that the development of Wylfa Newydd is of significance to a wide area and opportunities and challenges will result from constructing and operating Wylfa Newydd power station beyond the north of Anglesey. We believe that the geographical area that is being addressed in the current consultation is too restrictive and it is crucially important that the Horizon Nuclear Power considers the wider area in every aspect of its work of developing and planning its proposals.
5. In respect of the above, we wish to see urgent and substantial progress in response and action to commence as soon as possible. Again, the Council is ready and willing to play a full role in partnership with others.

Hopefully, the above observations and those enclosed will be useful to you and that you will attend to the issues that we have highlighted.

Gwynedd Council is fully committed to ensuring that the challenges stemming from constructing and operating Wylfa Newydd are addressed and that we take the maximum advantage of every opportunity. We look forward to continuing to collaborate with you and other partners to this end,

Yours sincerely

Cllr. John Wynn Jones
Cabinet Member – Economy

Cllr. John Wyn Williams
Cabinet Member - Planning

1. Do you have you any general comments regarding the Project?

   - Gwynedd Council supports the economic opportunities that will come to the region as a result of Wylfa Newydd and we acknowledge the significance of this development to the whole of North Wales and the North-West in particular.
   - We believe that further attention and focus is needed on the challenges and the opportunities for the whole region (of North Wales and the North-West in particular) throughout the plans and consultation documentation. We believe that there is currently too narrow a focus on a geographical area within Anglesey without a clear explanation of the logic.
   - We believe that careful planning will be required to mitigate the negative impacts and to maximise the opportunities arising from developing and operation of the Wylfa Newydd power station, especially in terms of:
     - the city of Bangor, as the social and economic centre of the area;
     - transport – specifically in relation to the bridges over the Menai Straits and the A487 to the south;
     - various public services such as health, community safety, leisure etc.;
     - the Welsh language; and
     - the housing supply and market.
   - There is a desire to collaborate to understand the technical requirements of the Project, the implications of those and the region's capacity in every respect to cope with the requirements to get the best balance in social, economic and environmental terms.
   - Gwynedd Council wishes to see Horizon Nuclear Power further addressing the effect of the Wylfa Newydd development after completing the construction phase when the power station is operational. The attention given to the impact of the construction phase and the resulting opportunities and challenges is welcomed but we believe that the same attention must be given to the long-term effect of the development.
   - The Council wishes to see close co-ordination between the timetable for Wylfa Newydd and other developments in the nuclear industry including decommissioning Wylfa and Trawsfynydd power stations to maximise the benefit for the local economy and workforce.
   - We believe that discussion with the Nuclear Decommissioning Authority (NDA) is crucial to ensure that the existing workforce at the Trawsfynydd Decommissioning Site is maintained until Wylfa is decommissioned and the construction of Wylfa Newydd is commenced.
   - In respect of all of the above, we wish to see urgent and substantial progress in response and *action* commenced as soon as possible. Again, the Council is ready and willing to play a full role in partnership with others.

2. Do you have any comments about the way in which the consultation is being carried out?

- We welcome the Horizon Nuclear Power's commitment to ongoing consultation with the public and stakeholders, such as Gwynedd Council, although the legal framework is on a UK level.
- The Council is pleased to see Horizon Nuclear Power consulting with the public across a wide area in Anglesey, Gwynedd and Conwy. It is crucial to foster a feeling of ownership and to ensure the public's consent to the development.
- We accept the proposed framework in terms of the scope to influence the project and see a great benefit in the approach suggested, especially the tiered approach adopted in providing progressively more technical information.
- The commitment of the Horizon Nuclear Power is also welcomed to provide feedback from the exercise and to consult further at the end of 2015.

3. Do you have any comments relating to the Preliminary Environmental Information Report presented by Horizon?
   - The direct environmental impact of the development of the site is restricted to its surroundings and therefore is beyond the scope of the Council's observations.
   - As the geographical focus too restricted at present, we note that it is mainly information about the Island that is noted and analysed on a thematic basis.
   - Horizon Nuclear Power is encouraged to ensure that it identifies and addresses a fuller range of national and local policies and guidelines more comprehensively. There is a connection between this observation and the Council's observation regarding the narrow search area that is currently being examined.
   - Horizon Nuclear Power is urged to discuss the requirements for aggregates and waste disposal, e.g. for the construction of associated developments, with the North Wales Regional Minerals and Waste Unit.
   - Horizon Nuclear Power is urged to consider the cumulative effect of developments, including the effect of the electricity transmission network across the Menai Straits to the Pentir electricity station.

4. Do you have any observations on Horizon's coastal development proposals in Porth y Pistyll and Wylfa Head relating to the cooling water system (including the breakwaters) and the marine off-loading facility?

   No comments

5. Do you have any comments on Horizon's indicative landscape proposal?

   No comments

6. Do you have any comments or preferences on whether the Power Station's buildings should be designed to blend in or make a striking architectural feature in the landscape?

   No comments

7. Do you have any comments relating to skills and training and the promotion of local and regional employment?

   - The employment opportunities that will be created during the construction period and subsequently when Wylfa Newydd becomes operational are greatly welcomed. They offer a golden opportunity to create quality jobs in the context of a regional economy that is over-dependent on low-pay employment.
   - To ensure that north Wales maximises the opportunities, it is crucial that Horizon Nuclear Power continues to collaborate closely with statutory, Higher and Further education providers across North Wales along with other key partners such as Job Centre Plus and Careers Wales.
   - To support the residents of North Wales to secure as many as possible of the job opportunities, we urge Horizon Nuclear Power to reduce as far as possible the variation in the numbers employed during the construction phase. Large variations over short periods will reduce the ability of the labour market in North Wales to satisfy the need.
   - Horizon Nuclear Power's commitment to develop and implement a Jobs and Skills Strategy is welcomed. Horizon Nuclear Power are encouraged to complete the Strategy urgently.
   - The Council urges Horizon Nuclear Power to ensure that their training and development provision ties in the skills of their workforce with the requirements of the wider labour market in North Wales to reduce the risk of creating a capable workforce that will leave the region after Wylfa Newydd has been constructed.

8. Do you have any comments relating to Horizon's engagement with the supply chain and proposals for purchasing from local and regional businesses and suppliers?

   - Horizon Nuclear Power's commitment to develop the supply chain locally and to establish a Supply Chain Charter is welcomed. The company is encouraged to develop its supply programme as soon as possible to ensure the opportunity for businesses in North Wales to develop their ability to address the needs.
   - The Council urges Horizon Nuclear Power to adhere to their commitment to ensure that their contractors emulate their commitment to the local supply chain.
   - It is also suggested that it will be crucially important that Horizon Nuclear Power, along with its partners in the public sector, is mindful of any unexpected implications of their presence in the local market. For

example, there is a risk that the substantial demand derived from Wylfa Newydd could distort the construction market locally leading to an increase in cost and a reduction in the availability of builders for other schemes.

- It must be ensured that the strength of Horizon Nuclear Power's demand for materials and services benefits the wider region by ensuring that associated developments are achieved at the same time; for example, updating the electricity network infrastructure or improvements to the Information and Communication Technology infrastructure.

9. Do you have any comments on Horizon's draft Integrated Traffic and Transport Strategy principles?

    - Horizon Nuclear Power's commitment to drawing up an Integrated Transport and Traffic Strategy is welcomed and the principles outlined are broadly supported.
    - However, the Council believes that the Strategy as outlined is far too narrow in its geographical focus, concentrating on the A5025 and providing legacy benefits for Anglesey. We believe that it is crucially important that Horizon Nuclear Power's proposals consider the implications of Wylfa Newydd for the whole area and propose responses to that end. These considerations should include the possible use of rural lanes which may be popular routes for those elements of the workforce choosing not to live in purpose-built accommodation, to connect with the main roads in order to get to the registered sites and to businesses in the supply chain.

10. Do you have any comments on Horizon's sea transport proposals?

    - We agree with Horizon Nuclear Power's proposal to make use of sea transport for transporting 'Abnormal Indivisible Loads' and, we assume, bulky goods such as aggregates. However, the current proposals focus completely on how the goods are received at the Wylfa Newydd site, it is not outlined how the material will be loaded onto ships to be transported to the site. It is likely that some materials will be loaded onto ships in proximity to their source but we believe that some materials may be transported to North Wales on the roads or railways prior to their transfer by sea. If this is so, further information is needed regarding the implications for roads in the region, such as the A55 and the A487 and the North Wales Coast Railway Line; along with information regarding how it is proposed to receive and transfer materials for their onward journey to the site.

11. Do you have any comments on Horizon's road transport proposals?

    - The attention given by Horizon Nuclear Power to transportation and construction workers' needs is welcomed.
    - However, we believe once again that the proposals concentrate on too narrow a geographical area as no mention is made of the area beyond Anglesey. No observation is made in the proposals outlined on the implications to roads beyond the Menai Straits, such as the A55 and the

A487 as a consequence of increased commuting and the transport of goods. It also appears that the proposals presume that the vast majority of the workforce on the site will be accommodated in Anglesey, which is contrary to the aspiration that a substantial part of the workforce will come from among North Wales' native residents.

- We believe that it is crucially important that Horizon Nuclear Power give urgent consideration to the wider implications of the development of Wylfa Newydd for the North-West and specifically address the capacity of the Britannia Bridge to cope with an increase in the number of travellers, the implications for the A55 along the North Wales coast and the capacity of the A487 to carry an increased number of travellers from South Gwynedd.

12. Do you have any comments on the broad area of search or suggestions for sites Horizon could develop for park and ride facilities, logistics centres or temporary workers accommodation?

- We believe that the large search area noted in the consultation documents is far too limited in terms of its geographical scope.
- We assume that emphasis is placed on construction workers' travelling time to the main site in order to avoid excessive travel times and/or workers being held in traffic congestion e.g. on the bridges. Although we acknowledge that this could affect the construction timetable of the power station, we believe that consideration must be given to the full picture in order to have the best balance for the communities of Anglesey, Gwynedd and North-West Wales.
- Gwynedd Council is of the view that it is essential that Horizon Nuclear Power gives consideration to the geographical area of North Wales in its entirety, particularly the North-West including the Isle of Anglesey, the Menai Straits (including Caernarfon and Bangor) and the A55 corridor.
- Specifically, we believe that they should consider locating the main park and ride facilities and the logistics centre for Wylfa Newydd in the vicinity of Bangor given the restricted capacity of Britannia Bridge to cope with any increase in its use. With respect to the logistics centre, there are a number of suitable locations that could be considered in the area including Parc Bryn Cegin, Llandegai and Parc Menai, and the Council would be happy to collaborate with Horizon Nuclear Power to identify a suitable location for a park and ride facility.
- In terms of workers' accommodation, we believe that the proposals suggest an over-reliance on migratory workers relocating to the area temporarily, and that those workers will be accommodated in temporary purpose-built accommodation provided by Horizon, with the remaining workers accommodated in private sector housing units or in holiday accommodation for the construction period.
- We do not believe that adequate consideration has been given to the effect of this element on the availability of private sector housing units for local residents or on the tourism sector during the construction period. We believe that collaboration with the Housing Partnerships and the Councils in

North-West Wales is key in order to develop a full understanding of the availability of accommodation in the area, so as to identify the best option for the communities of the area.

- We believe that an early understanding of the type of workers (e.g. single, or migrating with a family) that are likely to relocate to the area is essential, as well as the periods of the work contracts, in order to identify the best options for providing accommodation.
- We do not believe that adequate consideration has been given to the possibility that a portion of the migratory workers will choose to locate close to the main urban centres of North-West Wales such as Llangefni, Caernarfon, Bangor and the vicinity, and the likely impact of their presence on these communities.
- We do not believe that there has been adequate consideration to a scenario which would see the workforce migrating from more rural parts to more urban areas, which is likely to exacerbate an already fragile situation in terms of the age of the population in the communities and linguistic ability.
- We believe that early and thorough consideration of the impact of the Wylfa Newydd development and the associated construction workforce on the communities of the region, and the implications in terms of the provision of public services such as health, community safety, education, leisure etc. is required as soon as possible.

13. Do you have any comments or suggestions for long-term legacy benefits or community facilities?

- The Council strongly believes that there is a need to better understand the significance and effect of the Wylfa Newydd development during the construction period and afterwards when the power station will be operational.
- We believe it is important that the location of developments that could bring long-term benefits is consistent with land use planning policies from the outset.

14. Do you have any additional comments on Horizon's Project proposals?

- We would strongly urge Horizon Nuclear Power to continue to investigate the social and linguistic implications of the Wylfa Newydd development. We believe it is essential that firm steps are adopted to alleviate any risks and ensure that the development contributes as much as possible to the economic and social sustainability of the indigenous communities of the Isle of Anglesey, Gwynedd and North-West Wales.